Chwarae ar Olwynion
Y rhaglenni rydym yn eu cynnig

Rhaglen dros 8 wythnos sy'n archwilio chwarae plant yw **'Codi'r Llen ar Chwarae'**. Mae'n edrych ar sut mae chwarae'n rhan hanfodol o ddatblygiad plentyn. Byddwch yn dysgu am batrymau a chylchredau mewn ymddygiad plant a sut i'w hadnabod a'u cefnogi. Bydd yn rhoi ffordd newydd i chi ystyried sut mae eich plant yn chwarae a ffordd newydd o ymateb i hynny a datrys pam mae angen iddynt wneud hynny. Byddwn hefyd yn dangos pethau hawdd i chi eu gwneud gartref i gefnogi eu hanghenion chwarae a rhoi profiad chware cyfoethog iddynt. Yn ogystal â lle i dreulio amser gyda'ch gilydd, mae hwn yn gwrs achrededig.Mae'r rhaglenhon yn hwyl, mewn partneriaeth â Chwarae i'r Teulu.

Fresh Air Families

Rhaglen 6 wythnos yw **'Teuluoedd Awyr Agored'** sy'n archwilio chwarae yn yr awyr agored fel teulu. Mae'r amgylchedd naturiol yn darparu manteision niferus i ddatblygiad plant, a byddwn yn archwilio hyn trwy chwarae i'r teulu. Drwy ymgolli ym myd natur rydym yn llawer mwy actif, mae gennym lefelau canolbwyntio gwell ac rydym yn profi ymdeimlad o ryddid sydd ddim ar gael dan do. Mae'n ein hannog I gydweithio, yn gwella ein sgiliau cyfathrebu ac yn gwella ein hyder a'n lles yn gyffredinol.

WE PLAY

Mae sesiynau **'Croesawu Pawb i Chwarae'** yn cynnig y cyfle a'r lle i blant ag anghenion ychwanegol chwarae. Mae hefyd yn creu lle diogel, croesawgar a chefnogol i deuluoedd mewn sefyllfaoedd tebyg gwrdd a siarad. Rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ac yn teilwra'r sesiwn ar gyfer anghenion unigol y plentyn.
Rydym yn darparu amrywiaeth o gyfarpar i ddatblygu'r dychymyg, sgiliau motor manwl a bras a datblygiad emosiynol. Rydym yn darparu dewis amrywiol o gyfarpar, gan gynnwys cyfarpar synhwyraidd, archwilio hunaniaeth, celf a chrefft ac adeiladu er mwyn annog annibyniaeth, mynegiant personoliaeth a chymeriad.

Cost isel/Am ddim

Rhaglen 4-6 wythnos yw cost isel/am ddim sy'n dangos sut y mae plant yn chwarae'n naturiol gydag unrhyw beth y maent yn dod o hyd iddo yn y cartref. Byddwn yn dangos i chi nad oes angen i chi brynu'r tegan drud diweddaraf er mwyn darparu profiadau chwarae gwych i'ch plentyn. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ystafell wahanol bob wythnos ac mae'n edrych ar ba adnoddau y gallwch eu defnyddio am ddim neu y gallwch eu prynu'n rhad er mwyn eu cadw'n brysur ac yn llawn chwilfrydedd am oriau!

Wythnos 1: Cegin Greadigol
Wythnos 2: Hwyl yn yr Ystafell Fyw!
Wythnos 3: Fforwyr yr Ardd
Wythnos 4: Sblasio yn yr Ystafell Ymolchi
Wythnos 5: Diwrnodau Glawog
Wythnos 6: Crefftau Chwilfrydig

Sesiynau chwarae am ddim i deuluoedd

Sesiynau chwarae am ddim i deuluoedd yn y gymuned yn ystod gwyliau'r ysgol.
Rydym yn annog teuluoedd i ymuno â ni i chwarae gyda'i gilydd, cael hwyl, gwneud llanast a chreu atgofion newydd!

Os oes gennych ddiddordeb yn unrhyw un o'n rhaglenni, cysylltwch ag unrhyw un o'r Uwch-weithwyr Chwarae isod:-

- E-bostiwch Katie.Harkness@abertawe.gov.uk neu ffoniwch 07796275138 neu 635498
- E-bostiwch Catherine.Curtis@abertawe.gov.uk neu ffonwich 07917200077